Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru – rhaglen ddysgu a datblygu "hyfforddi'r hyfforddwr"

## Cais am Gynigion

**Crynodeb:**

Hoffai Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gomisiynu cefnogaeth i ddatblygu rhaglen ddysgu a chefnogi "hyfforddi'r hyfforddwr" yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallwch ddysgu mwy am y Ddeddf a gwaith y Comisiynydd ar ein gwefan.

Pwrpas hyn yw cynyddu gweithrediad ac effaith y Ddeddf - cenhadaeth graidd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol presennol. Oherwydd cyfyngiadau ar arbenigedd, adnoddau a chapasiti mewnol, rydym yn chwilio am gynigion gan unigolion neu sefydliadau a fedr ein helpu i ddatblygu rhaglen ddysgu a chefnogaeth hunangynhaliol y gellir ei chyflwyno ledled Cymru a thu hwnt.

**Cefndir**

*Deddfwriaeth a Dyletswyddau*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") yn berthnasol i 56 o sefydliadau'r sector cyhoeddus. Oherwydd comisiynu, caffael, contractwyr a chydweithio, mae cwmpas y Ddeddf yn mynd y tu hwnt i'r 56 sefydliad a enwir yn y ddeddfwriaeth gan ledaenu i'r rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus a rhannau o'r sectorau preifat a gwirfoddol.
Sefydlodd y Ddeddf rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gefnogi a herio Cymru i wneud penderfyniadau er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r Comisiynydd yn gwneud hyn drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i gweithrediad drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a her.

O dan y Ddeddf, mae'r Comisiynydd hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi ei amseru i'w gyhoeddi tua blwyddyn cyn etholiad y Senedd. Mae'r adroddiad diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, yn argymell y dylai "cyrff cyhoeddus sicrhau bod eu staff yn deall y Ddeddf mewn modd sy'n gwella ansawdd a chysondeb y ei gweithrediad trwy hyfforddiant gorfodol a datblygiad capasiti" ac y dylai cyrff cyhoeddus uwchraddio eu sgiliau eu hunain mewn technegau ar gyfer meddwl am y dyfodol ac enwebu cynrychiolydd i ymuno â Hwb Dyfodol (canolfan gydweithredol i hybu meddwl a hyfforddiant ar gyfer y dyfodol a sefydlwyd gan y Comisiynydd). Wrth ymateb i'r argymhellion hyn, mae cyrff cyhoeddus wedi gofyn am adnoddau a fydd yn eu helpu i ddarparu hyfforddiant mewnol. Bwriad y prosiect hwn yw ymateb i'r angen hwnnw.

*Ein gwaith hyd yn hyn a'r angen*

Sefydlodd y Comisiynydd presennol ei strategaeth, Cymru Can, sy'n cynnwys pum cenhadaeth gydgysylltiedig y penderfynwyd arnynt trwy ymgyfraniad helaeth. Prif genhadaeth Cymru Can yw gweithredu'r Ddeddf yn effeithiol a gydag uchelgais. Rhan o'r gwaith hwnnw yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r Ddeddf, i helpu pobl i'w deall a'i gweithredu o fewn eu cyd-destun. Rydym yn darparu cefnogaeth mewn sawl ffordd gan gynnwys hyfforddiant am ddim, rhoi cyngor ad hoc, datblygu adnoddau a phecynnau cymorth am ddim. Pan allwn, rydym hefyd yn darparu hyfforddiant pwrpasol. Gallwch ddarllen mwy am y gefnogaeth a gynigir yma a gallwch bori drwy ein hadnoddau yma. Golyga hyn bod gennym sawl modiwl hyfforddi, adnoddau a chynnwys amlgyfryngau y gellid eu defnyddio i gynhyrchu rhaglen ddysgu a datblygu. Mae'r hyfforddiant hwn yn ymwneud â dysgu wyneb yn wyneb, hybrid/ar-lein a digidol.

Rydym yn sicrhau bod ein hadnoddau ar gael i'r cyhoedd a thra bod rhywfaint o'r deunydd hwn yn cael ei addasu i'w ddefnyddio gan eraill, hoffem gael dull safonol, sicr o ran ansawdd a sefydledig o hyfforddi pobl i ddarparu eu hyfforddiant eu hunain ar y Ddeddf, wedi'i wreiddio yng nghyd-destun eu sefydliad a'u gwaith.

Rydym yn croesawu eich mewnbwn i'n helpu i bennu canlyniadau dysgu ar gyfer y rhaglen hon, ond hoffem weld cyrff cyhoeddus:

- Yn cynyddu eu gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r hyn y mae'n ei olygu yn nhermau eu dyletswyddau, eu hymddygiad a'u dulliau o wneud penderfyniadau.

- Yn deall sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn llunio ac yn dylanwadu ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio.

- Yn datblygu sgiliau sy'n ymwneud â gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (sy'n canolbwyntio ar y pum dull o weithio).

- Yn ennill y sgiliau, yr hyder a'r brwdfrydedd i hyfforddi eraill i weithredu'r Ddeddf.

- Yn defnyddio adnoddau ac offer a dangos i eraill sut i'w defnyddio, mewn dull sy'n addas i'w cyd-destun.

Ar hyn o bryd, rydym yn mesur llwyddiant ein hyfforddiant drwy ffurflenni cofrestru ac adborth, sy'n ffocysu ar hyder, gwybodaeth a gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai eich cynnig a'ch allbynnau ymgorffori'r elfennau hyn ac ystyried sut y gellid gwerthuso elfen "hyfforddi'r hyfforddwr".

Rydym yn cynnull 'Rhwydwaith Sefydliadau Cymorth' sy'n cynnwys ymgyfraniad sefydliadau fel Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, CLlLC, Academi Wales, cynrychiolwyr rhwydweithiau fel Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru+ a'r byd academaidd. Mae'r rhwydwaith hwn yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i alinio ein cynnig cenedlaethol ậ dysgu am y Ddeddf a'i chynorthwyo. Gallai'r sefydliadau hyn ddarparu cyfleoedd cydweithredol a seinfwrdd ar gyfer y gwaith hwn.

Yn seiliedig ar adborth a gasglwyd yn anffurfiol oddi wrth gyrff cyhoeddus a thrwy arolwg rhanddeiliaid diweddar, rydym yn cydnabod bod galw am raglen "hyfforddi'r hyfforddwr".

Rydym wedi dechrau trafod hyn yn fewnol ac wedi siarad â rhai rhanddeiliaid ond nid oes gennym y capasiti na'r arbenigedd mewnol i fwrw ymlaen â hyn. Mae 330,000 o bobl yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (10.5% o'r boblogaeth) sy'n cynrychioli her a chyfle. Tra'n bod yn cyrraedd sawl mil o bobl y flwyddyn, nid oes gennym y capasiti fel tîm bach i ehangu cyrhaeddiad ein hyfforddiant ond rydym yn cydnabod bod cyrff cyhoeddus yn gofyn am raglen "cymryd a mynd".

**Tasg ac allbynnau**

Gweithiwch gyda ni i gynyddu gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ddatblygu rhaglen ddysgu a chefnogi "hyfforddi'r hyfforddwr". I wneud hyn, darparwch o leiaf y canlynol:

- Addasu cynnwys amlgyfryngau cyfredol i fformat "hyfforddi'r hyfforddwr", gan gynhyrchu canllaw hollgyhwysfawr a rhaglen hyfforddi wedi'i phrofi fel adnodd "cymryd a mynd" (Allbwn 1).
- Cynghori ar raglen gymorth barhaus a chofleidiol i hyfforddwyr neu rwydwaith; ac argymhellion ar gyfer ehangu (Allbwn 2).

Mae'n ofynnol i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw i ddefnyddio'r Ddeddf, yn arbennig y pum dull o weithio, wrth lunio eu methodoleg a chyflawni eu gwaith. Felly, rydym yn disgwyl i chi ennyn ymgyfraniad defnyddwyr-terfynol drwy gydol y prosiect a chydweithio â'n tîm a sefydliadau cefnogol eraill.

**Amserlen ar gyfer y prosiect**

Dyma amlinelliad o amserlen at ddibenion rheoli prosiectau.

| **Dyddiad** | **Proses** |
|---|---|
| Erbyn dydd Llun, 26 Ionawr, 17:00 | Mynegiadau o ddiddordeb wedi'u cyflwyno |
| Dydd Llun 2 Chwefror | Dechrau'r prosiect yn dilyn dyfarnu'r contract |
| Wythnos yn dechrau 2 Chwefror | Cyfarfod cychwynnol |
| Wythnos yn dechrau 23 Chwefror | Cyfarfod hanner-ffordd ac adolygiad |
| Erbyn dydd Gwener 6 Mawrth | Cynhyrchu allbwn 1 (adnodd) |
| Erbyn dydd Gwener 20 Mawrth | Cynhyrchu allbwn 2 (nodyn cyngor ac argymhellion) |
| Wythnos yn dechrau 30 Mawrth | Diwedd y prosiect/cyfarfod clou |

*Anfonwch ymholiadau a mynegiadau o ddiddordeb at*
heledd.morgan@futuregenerations.wales a Colleen.cluett@futuregenerations.wales

Sylwch, oherwydd gwyliau'r Nadolig a chau'r swyddfa, na fyddwn yn gallu ateb ymholiadau o ddydd Llun 22 Rhagfyr tan ddydd Gwener 2 Ionawr.

**Cyllideb**

Ar gyfer y darn hwn o waith mae gennym gyllideb o hyd at £5,000 (gan gynnwys TAW os yw'n berthnasol).

**Amserlen Dalu**:

Byddwn yn talu 25% ar ôl hysbysu'r dyfarniad; 25% ar ôl cyrraedd hanner-ffordd a'r 50% sy'n weddill ar ôl cwblhau'r allbynnau terfynol yn foddhaol.

**Meini Prawf Asesu**

Hoffem i chi ddarparu hyd at 2,000 o eiriau yn crynhoi eich ymagwedd, eich profiad a'ch cost. Cynhwyswch:

1- Eich ymagwedd arfaethedig tuag at gyflawni'r tasgau a ddisgrifir uchod, yn enwedig sut y byddech chi'n ei alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Dylech gynnwys manylion am eich profiad cefndir a'ch set sgiliau yn yr adran hon (40%).
2- Gwerth arfaethedig allbwn y cynnyrch (30%).
3- Cyfraniad eich sefydliad i gynaliadwyedd, yn arbennig y modd yr ydych yn ceisio gweithio mewn ffordd sy'n gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd (gweler isod am ragor o wybodaeth i helpu i ateb yr adran hon) (30%).

Ateb Maen Prawf 3:

Er mwyn ein helpu i asesu sut y byddech chi'n cyflawni'r meini prawf uchod, dywedwch wrthym am unrhyw beth perthnasol y mae eich sefydliad yn ei wneud i gefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, lleihau allyriadau carbon, gwella bioamrywiaeth, yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, a chadwyni cyflenwi moesegol.

Cofiwch gynnwys unrhyw beth a allai, yn eich barn, fod yn berthnasol, hyd yn oed bethau bach, fel hyfforddiant yr ydych chi'n ei gynnig i'ch staff, gwrthod bagiau plastig, defnyddio cynhyrchion masnach deg neu rai wedi'u hailgylchu, peidio â defnyddio, neu leihau pecynnu plastig, gweithio hyblyg, bod yn gyflogwr cyflog byw go iawn, cefnogaeth elusennol, diwrnodau ychwanegol i ffwrdd rydych chi'n eu rhoi i weithwyr neu arferion cyflogaeth cadarnhaol eraill, cefnogaeth gymunedol ac amgylcheddol, neu gefnogi neu hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.

Mae angen i ni wybod hefyd a allai fod risg wirioneddol neu ganfyddedig o ragfarn wleidyddol neu wrthdaro buddiannau, felly dywedwch wrthym am unrhyw gysylltiadau gwleidyddol sydd gan uwch staff neu unrhyw beth arall a allai, yn eich barn, fod yn berthnasol – gallwn ni helpu i liniaru risgiau ar ôl iddynt gael eu nodi.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Byddwn yn defnyddio'r matrics sgorio yn y tabl isod ar gyfer ein hasesiad sgorio.

**Matrics Sgorio**

| Canllawiau Sgorio | Profiad ac Ymagwedd<br>Sgôr Uchaf<br>40 marc | Gwerth allbwn cynnyrch arfaethedig<br>Sgôr Uchaf<br>30 marc | Cynaliadwyedd<br>Sgôr Uchaf<br>30 marc |
|---|---|---|---|
| **Ardderchog.**<br>Mae'r cynnig wedi darparu ymateb trylwyr, gan fynd i'r afael â'r HOLL ofynion yn fanwl iawn, gan roi hyder y gellir bodloni'r gofynion yn llawn, gydag atebion gwerth ychwanegol. | Ystod y Sgôr<br>**33 – 40** | Ystod y Sgôr<br>**25 - 30** | Ystod y Sgôr<br>**25 - 30** |
| **Da.**<br>Mae'r cynnig wedi darparu ymateb cryf sy'n mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r gofynion yn fanwl, gan roi hyder y gellir bodloni'r gofynion yn llawn. | Ystod y Sgôr<br>**25 – 32** | Ystod y Sgôr<br>**19 - 24** | Ystod y Sgôr<br>**19 - 24** |
| **Boddhaol.**<br>Mae'r cynnig wedi darparu ymateb boddhaol sy'n mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r gofynion yn ddigon manwl, gan roi hyder y gellir bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion. | Ystod y Sgôr<br>**17 - 24** | Ystod y Sgôr<br>**13 - 18** | Ystod y Sgôr<br>**13 - 18** |
| **Gwael.**<br>Mae'r cynnig wedi darparu ymateb anghyson sy'n mynd i'r afael â rhai o'r gofynion gyda manylion rhannol. Mae yna ychydig o bryderon ynghylch a ellir bodloni'r gofynion ai peidio, ac mae angen eglurhad pellach ar hyn. | Ystod y Sgôr<br>**9 - 16** | Ystod y Sgôr<br>**7 -12** | Ystod y Sgôr<br>**7 -12** |
| **Anfoddhaol.**<br>Mae'r cynnig wedi darparu'r ymateb lleiaf posibl sy'n mynd i'r afael â rhai o'r gofynion gydag ychydig iawn o fanylion. Nid yw'r ymateb a ddarparwyd yn rhoi hyder llwyr y gellir bodloni'r gofynion. | Ystod y Sgôr<br>**1 – 8** | Ystod y Sgôr<br>**1 - 6** | Ystod y Sgôr<br>**1 - 6** |
| **Pryderon Difrifol.**<br>Mae'r cynnig wedi methu ag ateb y cwestiwn, wedi cyflwyno dim ymateb neu mae elfen o'r ymateb yn rhoi achos pryder mawr na fydd y gofyniad/gofynion yn cael eu bodloni. | Ystod y Sgôr<br>**0** | Ystod y Sgôr<br>**0** | Ystod y Sgôr<br>**0** |